**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**

**Amddiffynfeydd Arfordirol Hen Golwyn - Diweddariad Mis Awst 2020**

Ers y diweddariad diwethaf ym mis Chwefror mae'r gwaith ym mhen dwyreiniol y promenâd yn Hen Golwyn wedi'i gwblhau, gyda meini amddiffyn wedi'u codi o flaen y morglawdd presennol i amddiffyn un o rannau mwyaf bregus y promenâd. Mae'r Llwybr Teithio Llesol yn y rhan yma hefyd wedi'i wella, gydag wyneb newydd wedi'i osod yn ogystal ag arwyddion, goleuadau stryd a man gwasanaethu beics. Ceir ychydig o luniau ar ddiwedd y diweddariad hwn.

Er bod y gwaith yma wedi targedu'r rhannau mwyaf bregus o'r promenâd mae yna nifer o rannau eraill lle mae'r amddiffynfeydd mewn perygl o fethu. Un rhan sy'n peri pryder yw darn 400m o'r morglawdd sydd heb feini i amddiffyn blaen y morglawdd, a gwyddom fod y rhan yma wedi'i gwanhau yn y gorffennol. Mae yna rannau eraill sydd â meini amddiffyn isel ac er bod hyn yn darparu ychydig o amddiffyniad i flaen y morglawdd nid yw'n ddigon i atal y dŵr rhag dod drosodd pan fo llanw uchel.

Mae'r cyllid a ddyfarnwyd ar gyfer y gwaith diweddaraf wedi ein caniatáu i gomisiynu dyluniad manwl ar gyfer yr arfordir 1200 metr o Borth Eirias i Beach Road. Mae'r gwaith yma, a ddechreuwyd ym mis Chwefror, yn tynnu tua'r terfyn. Mae'r cynllun yn cynnwys codi wal gynnal y graig o flaen y promenâd cyfan a chodi'r rhan gul, ddwyreiniol o'r briffordd a'r promenâd (o Rotary Way i Beach Road) i ddarparu'r cadernid angenrheidiol yn erbyn y lefelau newid hinsawdd a ragwelir. Mae'r dyluniad hefyd yn cynnwys gwelliannau i'r Llwybr Teithio Llesol a'r parth cyhoeddus.

Yn ôl amcangyfrif o gost y gwaith bydd y gwaith adeiladu yn costio oddeutu £34 miliwn. Hyd yma rydym ni wedi diogelu £6.075 miliwn gan Lywodraeth Cymru (Cludiant) a £2 filiwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rydym ni hefyd yn agos iawn at ddod i gytundeb gyda Dŵr Cymru am gyfraniad tuag at y gwaith ac mae'r trafodaethau ynglŷn â chyfraniad Network Rail yn parhau. Mae gan Network Rail a Dŵr Cymru isadeiledd a fydd yn elwa'n uniongyrchol ar yr amddiffynfeydd newydd ac felly mae Llywodraethu Cymru yn mynnu eu bod yn cyfrannu at gost unrhyw gynllun yn y dyfodol.

Rydym ni hefyd yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru o ran defnyddio'r £6.075 miliwn. Ar hyn o bryd cynigir defnyddio'r arian hwn i dalu am y gwaith o godi wal gynnal o flaen y rhannau mwyaf bregus o'r morglawdd. Bydd hyn yn lleihau'r perygl o'r amddiffynfeydd yn methu, tra bod cyllid yn cael ei ddiogelu i godi'r briffordd a'r promenâd ac i ymgymryd â'r gwaith parth cyhoeddus. Hyd nes bydd y cynllun wedi'i orffen yn iawn mae'r perygl o fethiant trychinebus yn parhau'n uchel. I'r perwyl hwn rydym ni'n parhau i drafod dewisiadau ariannu posibl gyda Llywodraeth Cymru i ddiogelu'r cyllid sydd ei angen i gwblhau'r cynllun.



New surfacing and parking bays




Bike service station




Improved Active Travel route